Comisiwn y Senedd
Senedd Commission

# Adolygiad o'r Polisi Urddas a Pharch

## Diben a chrynodeb

1. Diben yr adroddiad hwn yw (i) rhoi gwybod i'r Comisiynwyr am ganlyniad yr adolygiad o'r polisi urddas a pharch, a (ii) ceisio barn ar y canfyddiadau a'r argymhellion cyn eu rhannu â'r Comisiynydd Safonau, y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y Bwrdd Taliadau a'r Grŵp Cyswllt Gwleidyddol.

## Argymhellion

2. Gofynnir i'r Comisiynwyr:

- Nodi canfyddiadau'r adolygiad o'r polisi urddas a pharch;
- Cytuno ar ei argymhellion a'r camau nesaf;
- Rhannu canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad gyda'r Comisiynydd Safonau, Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd a'r Bwrdd Taliadau.
- Cytuno ar y datganiad trosfwaol ar y cyd drafft i'w ystyried gan y Pwyllgor Safonau.

## Y cefndir

3. Ym mis Mai 2018, gwnaeth y Llywydd, cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ac arweinwyr y pleidiau ymrwymiad ar y cyd, y cytunwyd arno yn y Cyfarfod Llawn[1], i sicrhau bod y Senedd yn sefydliad cynhwysol lle nad oes unrhyw ddychryn nac aflonyddu. Rhoddwyd[2] polisi urddas a pharch tri-darn,

ynghyd â chanllawiau a phrosesau cysylltiedig, ar waith. Cytunwyd y byddai'r polisi'n cael ei adolygu o leiaf bob tair blynedd.

4. Dechreuwyd yr adolygiad cyntaf ym mis Medi 2021, i gydnabod y Cod Ymddygiad Aelodau newydd a nifer yr Aelodau newydd a etholwyd i’r Chweched Senedd. Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen o swyddogion Comisiwn y Senedd i arwain y broses adolygu ac, yn dilyn sgyrsiau cychwynnol â rhanddeiliaid mewnol allweddol, cynhaliwyd ymgynghoriad ehangach ar yr arolwg gydag Aelodau, staff cymorth yr Aelodau a staff y Comisiwn. Parhawyd i roi diweddariadau i’r Bwrdd Taliadau, y Comisiynydd Safonau a'r Pwyllgor Safonau.

## Gweithgarwch a gyflawnwyd ers 2018

5. Mae’r Comisiwn wedi cynnal nifer o weithgareddau ers 2018. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Darparwyd hyfforddiant urddas a pharch i Aelodau, staff cymorth yr Aelodau a staff y Comisiwn yn y Bumed Senedd. Mae hwn bellach yn rhan o raglen datblygiad proffesiynol parhaus y Comisiwn.
- Mae swyddogion cyswllt wedi'u penodi i roi arweiniad i achwynwyr posibl ac i ddarparu cymorth cyfrinachol.
- Mae cymorth emosiynol ar gael i achwynwyr posibl, ac i'r rhai y gwneir honiadau yn eu herbyn drwy'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr a'r nyrs iechyd galwedigaethol.
- Darparwyd cymorth ychwanegol i swyddfa'r Comisiynydd Safonau i hwyluso gwasanaeth gwell sy’n sicrhau bod cydbwysedd rhwng y rhywiau o'i swyddfa. Yn y Chweched Senedd, mae’r Comisiynydd wedi adrodd am lai o achosion ac nid oedd y cymorth ychwanegol hwn yn ofynnol. Cytunwyd ar brotocol, fodd bynnag, rhwng y Comisiynydd a Chomisiwn y Senedd. Ymhlith pethau eraill, bydd hwn yn galluogi adolygiad o adnoddau staff, ar gais, gan y Comisiynydd, a fydd yn helpu i sicrhau y caiff ymchwiliadau cytbwys o ran rhywedd eu cynnal pryd bynnag y bydd angen.
- Cynhaliwyd gwelliannau i'r wefan ac ymarfer 'siopwr dirgel' i brofi a oedd y wybodaeth, yr offer chwilio a'r iaith yn glir ac yn hygyrch.
- Mae cymorth annibynnol a chyfrinachol arbenigol bellach ar gael drwy swyddfa'r Comisiynydd Safonau i gefnogi'r rhai sy'n dymuno cwyno am achosion honedig o ymddygiad amhriodol gan yr Aelodau. Darperir y gwasanaeth cyfrinachol, pwrpasol hwn gan yr elusen annibynnol, Cymorth i Ddioddefwyr.
- Mae hyfforddiant penodol wedi'i drefnu ar gyfer unigolion allweddol ar aflonyddu a thrais rhywiol, gan gynnwys uwch swyddogion a swyddogion cyswllt.

**Adolygiad o'r Polisi Urddas a Pharch**

- Mae arolygon wedi'u cynnal ar urddas a pharch ar gyfer Aelodau o'r Senedd, staff cymorth yr Aelodau a staff y Comisiwn.

**Canfyddiadau allweddol yr adolygiad**

6. Cafodd y polisi ei weithredu a'i hyrwyddo'n effeithiol. Mae'r gweithgareddau a gynhaliwyd gan Gomisiwn y Senedd i geisio diwylliant o urddas a pharch wedi bod yn helaeth. Yn y flwyddyn ar ôl ei sefydlu a'i gyflwyno (2019), dywedodd 81.3% o ymatebwyr yr arolwg eu bod yn gwybod sut i fynegi pryder, sy'n uwch na'r 55.3% y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd hyn i 84% yn 2021 ac i dros 90% yn 2022.

7. Mae swyddogion cyswllt wedi adrodd am leihad yn nifer y pryderon a godwyd yn ystod y Chweched Senedd, ond nid ydynt wedi diflannu'n gyfan gwbl. Er ei bod yn anodd sefydlu data cadarn am nifer yr achosion cyfredol, oherwydd natur hynod sensitif a phersonol yr achosion, gallwn fod yn weddol hyderus mai ychydig iawn o achosion sydd. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd eto mewn adroddiadau diweddar, erys risg na fydd rhai achosion yn gweld golau dydd.

8. Mabwysiadwyd Cod Ymddygiad diwygiedig ar gyfer Aelodau o'r Senedd ar gyfer y Chweched Senedd a oedd yn cynnwys ychwanegu egwyddor 'parch'. Awgrymir y dylid diweddaru cod staff Comisiwn y Senedd i adlewyrchu'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau mewn cysylltiad ag urddas a pharch (gweler argymhelliad 4). Nid oes gan staff cymorth yr Aelodau god ymddygiad ar wahân, ond mae cadw at ofynion y polisi urddas a pharch yn ofynnol yn eu contract cyflogaeth.

9. Dangosodd yr ymgynghoriad y gall natur dri-darn bresennol y dull gweithredu fod yn gymhleth ac yn ffynhonnell o ddyblygu o ran polisïau a phrosesau perthnasol eraill. Argymhellodd y grŵp gorchwyl a gorffen y dylid disodli'r polisi gyda 'Datganiad ar Urddas a Pharch' cyffredinol ar y cyd, i gefnogi polisïau a phrosesau fel y codau ymddygiad a llawlyfr staff cymorth yr Aelodau.

10. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o'r polisi, a sut i gael gafael arno, ond canfu'r adolygiad nad yw cyfeirio at y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael yn ddigonol. Ymhlith staff cymorth yr Aelodau,

dywedodd 61.7% o'r ymatebwyr y byddent yn teimlo'n gyfforddus i godi pryderon gan ddefnyddio'r broses bresennol. Mae hyn yn cymharu â 71.2% ymhlith staff y Comisiwn ac 81% ymhlith Aelodau. Dywedodd swyddogion cyswllt fod natur eu sgyrsiau yn aml yn ymwneud â llywio'r 'system' urddas a pharch. Cynigir newidiadau felly i wneud y mecanweithiau cymorth a'r wybodaeth yn haws i'w cyrchu a'u defnyddio.

11. Mynegwyd pryder gan rai y gallai'r mecanwaith ffurfiol presennol a ddarperir gan y Senedd i godi mater yn ymwneud ag Aelod o'r Senedd (wrth y Comisiynydd Safonau) gael ei ystyried yn broses rhy ganlyniadol. Esboniodd rhai Staff Cymorth y byddai o gymorth cael mecanweithiau adrodd cliriach a chefnogaeth ar gyfer staff sy'n codi pryderon. Awgrymodd sawl un y dylai'r system ar gyfer adrodd am bryderon ynghylch urddas a pharch gael ei gweinyddu a'i rhedeg gan gorff annibynnol[3].

**Ystyriaethau eraill**

12. Cyflogir staff cymorth yr Aelodau gan bob Aelod (neu'r Arweinydd Grŵp ar gyfer staff grŵp plaid). Felly, mae cyfyngiadau cynhenid ar y graddau y mae'n bosibl i'r Comisiwn sicrhau bod staff cymorth yn cael eu cynnwys o fewn polisïau'r Comisiwn cyfan. Mae Cod Ymddygiad yr Aelodau, fodd bynnag, yn nodi "Rhaid i Aelodau gymryd camau rhesymol i sicrhau bod eu staff, wrth weithredu ar eu rhan, hefyd yn cynnal ac yn gweithredu yn unol â'r Rheolau hyn a'r Egwyddorion Trosfwaol. a fyddai'n cynnwys yr egwyddor 'parch'.

13. Rhoddir y llawlyfr Staff Cymorth i'r Aelodau, sy'n cynnwys amrywiaeth o dempledi polisïau adnoddau dynol a gynlluniwyd ar gyfer Aelodau sy'n cyflogi i'w mabwysiadu. O'r rhain, caiff y polisïau cwyno a disgyblu eu gwneud yn orfodol drwy'r Bwrdd Taliadau. Mae'r Bwrdd Taliadau hefyd yn darparu contract cyflogaeth gorfodol i Aelodau, sy'n cyfeirio at y templed polisi gwrth-aflonyddu a bwlio. Nid yw'r llawlyfr staff, yn ei gyfanrwydd, yn ofyniad gorfodol. Mae'n bosibl felly y bydd y Comisiwn am rannu canfyddiadau'r adolygiad â'r Bwrdd Taliadau, er mwyn ei alluogi i ystyried yr effaith ar bolisïau gorfodol o'r fath (gweler Argymhelliad 6).

[3] Yn ogystal, mae gan bleidiau gwleidyddol eu mecanweithiau eu hunain a all ddarparu llwybr amgen i achwynwyr. Cyfeirir at y rhain ar wefan y Comisiwn: Cyflogeion Aelodau o'r Senedd.

**Adolygiad o’r Polisi Urddas a Pharch**

14. Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd Plaid Cymru Prosiect Pawb: Canfyddiadau Allweddol a Chrynodeb o'r Argymhellion[4] yn ymwneud â’i ymchwiliad mewnol ei hun i faterion yn ymwneud ag urddas a pharch. Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion. Mae'r rhain yn cynnwys dynodi ymchwilydd allanol annibynnol a chefnogaeth annibynnol ar gyfer diogelu cyfrinachedd ac anhysbysrwydd achwynwyr, a darpariaeth ar gyfer hynny. Gallai’r argymhellion hyn fod yn berthnasol i unrhyw waith pellach a wneir gan y Pwyllgor Safonau fel y nodir yn argymhelliad 5.

15. Gwahoddir y Comisiynwyr i nodi Atodiad B sy'n nodi gwybodaeth am y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n gweithredu mewn sefydliadau tebyg.

**Argymhellion**

Mae'r argymhellion a ganlyn wedi'u datblygu i ymdrin â'r canfyddiadau allweddol a nodir uchod. Gwahoddir y Comisiwn i:

16. **Argymhelliad 1:** Ailddatgan ei ymrwymiad i gefnogi a datblygu diwylliant o urddas a pharch ar draws y Senedd. Dylai’r ymrwymiad hwn gydnabod y cynnydd sydd wedi'i wneud a pha mor bwysig yw bod pawb yn ymrwymo i sgyrsiau parhaus am y dull a ddefnyddir, a bod gwelliant parhaus i'r gwasanaethau a ddarperir a diwylliant y sefydliad.

17. **Argymhelliad 2:** Gwahodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i ystyried y dylai'r Senedd ddisodli'r polisi tri-darn presennol gyda 'Datganiad ar Urddas a Pharch' cyffredinol ar y cyd. Bydd hyn yn ailddatgan yr ymrwymiad i gynnal urddas a pharch ar gyfer yr Aelodau, staff cymorth yr Aelodau, staff y Comisiwn a phob ymwelydd. Bwriedir cysylltu â'r polisïau a’r gweithdrefnau perthnasol ym mhob achos. Cynigir bod hyn yn cael ei wneud gan y Llywydd ac arweinwyr y pleidiau, a’i gymeradwyo gan y Senedd yn y Cyfarfod Llawn. Gofynnir i'r Comisiynwyr gymeradwyo'r datganiad drafft a nodir yn Atodiad A fel man cychwyn i'w ystyried gan y Pwyllgor Safonau.

18. **Argymhelliad 3:** Nodi mai cyfarwyddwr penodol sy'n goruchwylio'r datganiad cyffredinol ar urddas a pharch sy'n bennaf cyfrifol am gydgysylltu urddas a pharch.

[4] Prosiect Pawb: Canfyddiadau Allweddol a Chrynodeb o'r Argymhellion.

**Adolygiad o’r Polisi Urddas a Pharch**

19. **Argymhelliad 4:** Cytuno y dylai gwasanaeth Adnoddau Dynol Comisiwn y Senedd gyflawni’r gweithgareddau a ganlyn:

- Diweddaru a diwygio Cod Ymddygiad Staff Comisiwn y Senedd i gyd-fynd â’r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau ynghylch urddas a pharch.
- Adolygu polisïau adnoddau dynol presennol Comisiwn y Senedd i sicrhau eu bod yn gyson â’r newidiadau diweddar i lawlyfr a pholisïau a gweithdrefnau symlach yr Aelodau a Staff Cymorth yr Aelodau.
- Symleiddio'r holl wybodaeth am bolisïau, gweithdrefnau a ffynonellau cymorth o ran urddas a pharch sydd ar gael yn fewnol ac yn allanol.
- Cyflwyno datrysiad technolegol syml i alluogi adrodd am faterion.
- Gweithredu'r rhaglen o hyfforddiant urddas a pharch gorfodol sydd wedi'i diweddaru'n gynhwysfawr a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer holl staff y Comisiwn. [5] Mae hwn hefyd yn cael ei gynnig i Aelodau a staff cymorth yr Aelodau, drwy'r Tîm Dysgu ac Ymgysylltu ag Aelodau.
- Nodi a hyfforddi swyddogion ychwanegol y Comisiwn fel swyddogion cyswllt urddas a pharch gyda ffocws penodol ar sicrhau bod anghenion grwpiau amrywiol yn cael eu diwallu.
- Parhau i weithio gyda rhwydweithiau cydraddoldeb y gweithle i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r mecanweithiau perthnasol sy'n ymwneud ag urddas a pharch ac yn gallu cyfeirio staff at y cymorth priodol.

20. **Argymhelliad 5:** Gwahodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i ystyried canfyddiadau adolygiad y Comisiwn, ac a yw’n dymuno nodi unrhyw gamau neu fecanweithiau pellach mewn perthynas â chreu diwylliant o fewn y Senedd sy’n cefnogi’r fframwaith polisi urddas a pharch ac a oes rhinwedd mewn ystyried ffyrdd eraill o gwyno, yn arbennig lle nad yw'r achwynydd yn dymuno adrodd ar y mater i'r Comisiynydd Safonau (neu i blaid wleidyddol).

21. **Argymhelliad 6:** Cytuno i rannu canfyddiadau’r adolygiad gyda’r Bwrdd Taliadau, i’w galluogi i ystyried yr effaith ar ei bolisïau ei hun.

---

[5] Mae'r Bwrdd Gweithredol eisoes wedi cytuno ar hyfforddiant urddas a pharch gorfodol. Mae hyn yn rhan o'r fframwaith Dysgu a Datblygu ar gyfer Amrywiaeth a Chynhwysiant a gaffaelwyd yn ddiweddar.

**Adolygiad o'r Polisi Urddas a Pharch**

22. **Argymhelliad 7:** Cytuno i rannu'r canfyddiadau â Grŵp Cyswllt Gwleidyddol y Senedd a'r Grŵp Gweithrediadau ac edrych yn fanwl gyda nhw pa gymorth pellach, os o gwbl, y dylai'r Comisiwn ei hwyluso.

23. **Argymhelliad 8:** Ystyried eirioli i'w grwpiau neu'u haelodau annibynnol bod yr holl Aelodau a'u staff yn dilyn yr hyfforddiant urddas a pharch a gynigir gan y Comisiwn yn ddieithriad.

**Llywodraethu**

24. Mae risg corfforaethol ar waith (HR-R-129 Urddas a Pharch - Y Comisiwn). Diffinnir y risg fel 'colli hyder' yn effeithiolrwydd y Comisiwn o ran urddas a pharch. Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd sy'n berchen ar hwn ar hyn o bryd ac fe'i rheolir gan yr adran Adnoddau Dynol. Adolygwyd y risg ddiwethaf ym mis Ebrill 2023 ac ar hyn o bryd mae'n cael ei raddio'n 'isel' yn gyffredinol.

25. Denodd yr amgylchiadau penodol a arweiniodd at gyflwyno'r polisi urddas a pharch tri-darn gwreiddiol a'i brosesau cysylltiedig sylw sylweddol yn y cyfryngau. Mae'n bosibl y bydd rhagor o ddiddordeb gan y cyfryngau pan fydd newidiadau'n cael eu cyflwyno. Bydd datganiadau ar gyfer y cyfryngau yn cael eu paratoi yn ôl yr angen. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol na goblygiadau uniongyrchol o ran adnoddau.  Bydd hyn yn cael ei adolygu'n barhaus.

**Adolygiad o’r Polisi Urddas a Pharch**

**Atodiad A: Datganiad ar Urddas a Pharch**

Mae’r Senedd wedi ymrwymo i ddarparu diwylliant cynhwysol heb achosion o aflonyddu.

Rydym yn disgwyl i'r rhai sy'n gweithio gydag Aelodau o'r Senedd, neu sy'n dod i gysylltiad â hwy, y staff y maent yn eu cyflogi neu gyflogeion Comisiwn y Senedd, gael eu trin ag urddas a pharch.

Ein nod yw sicrhau:

- bod pawb sy’n gweithio yn y Senedd ac yn ymgysylltu â hi yn teimlo’n ddiogel, yn cael ei barchu ac yn gyfforddus;
- mae diwylliant y Senedd yn un amrywiol a chynhwysol sy'n adlewyrchu pobl Cymru;
- nid oes lle i ymddygiad sy'n effeithio'n andwyol ar urddas pobl eraill;
- bod cwynion yn cael eu trin yn gyfrinachol ac yn deg i bawb y mae'r cwynion yn berthnasol iddynt;
- bod opsiynau a gweithdrefnau clir ar waith ar gyfer rhoi gwybod am achosion o dorri amodau'r polisi.

**Cymhwyso**

Mae’r datganiad hwn yn gymwys i’r gweithdrefnau cwyno ac achwyno sy’n ymwneud â materion urddas a pharch sy’n ymwneud â’r grwpiau canlynol o unigolion.

**Aelodau o’r Senedd a’u staff cymorth**

*Yr Aelodau*

Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd yn llywodraethu ymddygiad Aelodau bob amser, ym mhob man ac ym mhob cyd-destun.

Mae’r Cod yn ymgorffori’r “Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus” ynghyd ag egwyddor “Parch” sy’n datgan:

**Adolygiad o'r Polisi Urddas a Pharch**

*"Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd sy'n lleihau cyfle cyfartal, rhaid iddynt barchu urddas pobl eraill a pheidio ag ymddwyn yn wahaniaethol neu mewn modd nas dymunir."*

*Staff Cymorth yr Aelodau*

Mae'r llawlyfr cyflogaeth staff cymorth yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer cwynion a materion disgyblu. Mae hefyd yn cynnwys polisi gwrth-aflonyddu a bwlio enghreifftiol i bob Aelod ei fabwysiadu.

**Staff Comisiwn y Senedd a phob ymwelydd arall**

*Staff Comisiwn y Senedd*

Mae cyflogeion Comisiwn y Senedd yn rhwym i God Ymddygiad Staff a pholisi urddas a pharch cysylltiedig. Mae hwn hefyd yn berthnasol i interniaid, secondeion, gweithwyr asiantaeth a'r rhai ar brofiad gwaith.

*Pob ymwelydd arall*

Bydd nodau'r datganiad yn cael eu cymhwyso'n gytundebol i gontractwyr, gan gynnwys cynghorwyr allanol, a'u staff ac isgontractwyr sy'n darparu gwasanaethau i'r Senedd, tra byddant ar ystâd y Senedd neu'n darparu gwasanaethau i'r Senedd. Bydd y datganiad hwn hefyd yn gymwys i ddeiliaid swyddi a benodir gan y Senedd, a phob ymwelydd arall.

Disgwyliwn i bawb sy'n defnyddio ein hadeiladau barchu'r rhai sy'n gweithio yma a chynnal y datganiad hwn. Os bydd cwynion am ymddygiad unrhyw un sy'n ymgymryd â gwaith yn y Senedd, swyddfeydd etholaeth, neu ble bynnag yr ydym yn cynnal busnes, byddwn yn ymchwilio i'r gwyn o dan y weithdrefn berthnasol, a phan fo'n briodol, byddwn yn codi'r materion hyn gyda'i gyflogwr. Byddwn yn symud ymwelwyr nad ydynt yn parchu'r datganiad o ystâd y Senedd a, lle y bo'n briodol, byddwn yn rhoi gwybod i'r heddlu am y mater.

**Adolygiad o'r Polisi Urddas a Pharch**

**Atodiad B: Trosolwg o'r dull a ddefnyddiwyd i ymdrin â chwynion am Aelodau mewn sefydliadau eraill.**

26. Yn San Steffan, sefydlwyd y Cynllun Cwynion Annibynnol (ICGS) yn 2018 i fynd i'r afael â phryderon ynghylch camymddwyn gan Aelodau Seneddol. Mae'n ymchwilio i gwynion am ymddygiad amhriodol, fel bwlio, aflonyddu neu gamymddwyn rhywiol, ac yn rhoi cyngor i achwynwyr.

27. Mae'r ICGS yn berthnasol i bawb sy'n gweithio ar yr ystâd seneddol neu'n ymweld â hi. Sefydlodd yr ICGS god ymddygiad y mae'n rhaid i Aelodau Seneddol, ymwelwyr neu gyflogeion yn Senedd San Steffan gadw ato. Mae hefyd yn cynnal llinell gymorth i bobl ofyn am gyngor.

28. Caiff cwynion i'r llinell gymorth eu hasesu gan ymchwilydd annibynnol allanol. Os yw'r gŵyn yn bodloni'r meini prawf o dan y cynllun, bydd ymchwilydd annibynnol allanol yn cynnal ymchwiliad llawn. Ymchwilir i gwynion yn erbyn ASau neu staff ASau gan ymchwilwyr annibynnol allanol.

29. Mae'r cynllun yn gweithredu o dan arolygiaeth y Comisiynydd Seneddol dros Safonau, sef y penderfynwr mewn achosion sy'n ymwneud ag Aelodau Seneddol. Os bydd y Comisiynydd yn penderfynu y dylid sancsiynu atebydd, bydd yn cyfeirio'r achos at Banel Arbenigol Annibynnol[6] i benderfynu ar y sancsiwn.

30. Mae'r cod ymddygiad yr un mor berthnasol i Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi. Mae'r Comisiynwyr Safonau annibynnol yn Nhŷ'r Arglwyddi yn ymchwilio i gwynion yn erbyn Arglwyddi a'u staff.

31. Yn Senedd yr Alban, gellir gwneud cwyn i Gomisiynydd Safonau Moesegol yr Alban[7] os yw rhywun yn credu nad yw Aelod o Senedd yr Alban wedi dilyn y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Senedd yr Alban[8].

32. Mae'r Cod Ymddygiad yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau o Senedd yr Alban "beidio ag ymddwyn mewn modd tuag at ... unrhyw unigolion y maent mewn cysylltiad â nhw yn rhinwedd eu swydd fel Aelodau sy'n ymwneud â bwlio,

[6] Sefydlwyd y Panel yn 2020, gan ddisodli'r Pwyllgor Safonau yn y rôl hon. Mae'n pennu'r sancsiwn priodol ar gyfer ASau mewn achosion sy'n ymwneud â bwlio, aflonyddu neu gamymddwyn rhywiol a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Seneddol dros Safonau.
http://www.ethicalstandards.org.uk/
[8] https://www.parliament.scot/msps/code-of-conduct/section-7-msps-general-conduct#topOfNav

aflonyddu (gan gynnwys aflonyddu rhywiol), neu unrhyw ymddygiad amhriodol arall.”

33. Dim ond os yw'n ymwneud â'u 'dyletswyddau Seneddol fel Aelod o Senedd yr Alban' y gall y Comisiynydd Safonau Moesegol ymchwilio i ymddygiad Aelod. Gall y Senedd ofyn i'r Comisiynydd ymchwilio i unrhyw bryder arall am ymddygiad Aelod o Senedd yr Alban.

34. Bydd y Comisiynydd yn paratoi adroddiad cyfrinachol yn disgrifio ei ymchwiliad ac yn rhoi ei farn ynghylch a wnaeth yr ASA dorri'r Cod. Bydd y Comisiynydd yn anfon yr adroddiad at Bwyllgor Safonau, Gweithdrefnau a Phenodiadau Cyhoeddus Senedd yr Alban. Yna gall y Pwyllgor argymell i Senedd yr Alban bod cosb. Yn yr un modd, yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon, penodir Comisiynydd Safonau annibynnol gan y Cynulliad. Ei rôl yw cynnal ymchwiliadau trylwyr, teg a thryloyw i gwynion am ymddygiad Aelodau’r Cynulliad Deddfwriaethol (MLAs) mewn perthynas â’r cod ymddygiad, ac annog a hyrwyddo safonau moesegol uchel mewn bywyd cyhoeddus.

35. Mae’r Cod Ymddygiad i Aelodau o’r Cynulliad Deddfwriaethol yn nodi’r safonau moesegol sy’n ofynnol gan Aelodau wrth weithredu yn rhinwedd eu swydd fel Aelodau o’r Cynulliad hwnnw.